


# RHANBARTH GOGLEDD CYMRU

# LLAIS LLEOL SIR Y FFLINT

## CHWEFROR 2025

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Fformatau Hygyrchol

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni ar ymholidadu@llaiscymru.org

Gallwch ei lawr lwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Am Llais | 4 |
| Cefndir | 5 |
| Beth wnaethon ni | 6 |
| Casglu profiadau | 7 |
| Beth y glywsom | 7 |
| Gofal Sylfaenol | 7 |
| Adran Achosion Brys | 9 |
| Parcio ym Maelor Wrecsam | 10 |
| Amseroedd Aros | 12 |
| Gofalwyr a Seibiant | 12 |
| Materion Trawsffiniol | 13 |
| Gofal Llygaid | 14 |
| Ein hargymellion i BIPBC | 15 |
| Diolch | 16 |
| Adborth | 16 |
| Manylion Cyswllt | 16 |

# Am Llais

Rydym ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnyn nhw mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch adborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "claf a chyhoeddus" mewn gwahanol rannau o Gymru.



# Cefndir

Fel rhan o'n cynllun gwaith, ymrwymodd Llais Gogledd Cymru i ymgysylltu â dinasyddion ledled Sir y Fflint. Gwnaethom y gwaith hwn rhwng 10 Chwefror a 7 Mawrth.

**Felly pam Sir y Fflint?** Ar ôl adolygu'r adborth a gafwyd o'r gwahanol weithgareddau ymgysylltu a wnaed hyd yma, roedd yn amlwg nad oedd llawer o adborth gan ddinasyddion Sir y Fflint am eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol. Gyda hyn mewn golwg, roeddem o'r farn ei bod yn briodol ymgymryd â Llais lleol ledled Sir y Fflint i gasglu barn a phrofiadau dinasyddion Sir y Fflint.

Yn ogystal, mae dinasyddion Sir y Fflint yn cael mynediad at ofal iechyd ar draws y ffin yn Lloegr.

Byddai dull sir gyfan yn helpu cymariaethau o brofiadau dinasyddion iechyd a gofal cymdeithasol ar draws gwahanol leoliadau economaidd-gymdeithasol.

Roeddem eisiau clywed profiadau dinasyddion lleol o gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac i glywed sut mae eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu diwallu/neu ddim; i helpu i nodi unrhyw anghydraddoldebau gwasanaeth.



**Ymgysylltom â gwahanol grwpiau cymunedol ledled Sir y Fflint rhwng 10 Chwefror a 7 Mawrth, gan siarad â 291 o ddinasyddion, am eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol lleol.**

# Beth wnaethom ni

Fe wnaethom gysylltu â gwahanol grwpiau cymunedol sydd eisoes wedi'u sefydlu ledled Sir y Fflint i weld a allwn fynychu i gasglu barn y mynychwyr am eu profiadau personol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd llawer o'r mynychwyr yn ddefnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â gofalwyr cyflogedig a di-dâl. Dangosir y grwpiau a fynychwyd gennym isod.

- Clwb Airbus 50 +, Brychdyn
- Bore Coffi Neuadd y Dref y Fflint
- Sunshine Café, Leeswood
- Cymhleth Ymddeol Llys y Jiwbilî, Bwcle
- Memory Café, Holywell
- Chatterboxes (Grŵp cymorth anaf i'r ymennydd neu strôc), Bwcle
- Eglwys Hope, Coffi a Chacen, Penarlâg
- Grŵp gloÿnnod byw ar ôl strôc, Ewloe
- Grŵp Cinio Canolfan Gymunedol Douglas Place, Saltney
- Grŵp Hapus, Glannau Dyfrdwy
- Caffi'r Cof, Mynydd y Fflint

Roedd y grwpiau cymunedol yn hysbysebu ein presenoldeb cyn y cyfarfodydd; Fe wnaethom hefyd hyrwyddo ein presenoldeb trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Yn gyfan gwbl fe wnaethom siarad â 291 o bobl.

**Fe fynychom 11 grŵp cymunedol ledled Sir y Fflint**



# Casglu profiadau

Doedden ni ddim eisiau i bobl lenwi llawer o flychau ticio am y pethau y gallwn fod wedi meddwl oedd yn berthnasol, yn hytrach roedd angen i ni ddarganfod beth oedd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Sir y Fflint yn dod o hyd iddynt yn ystod eu gofal, yn eu geiriau eu hunain. Fe wnaethom siarad â phobl yn uniongyrchol a chefnogwyd pob un a gwblhaodd y ffurflen adborth i wneud hynny fel y bo'n briodol.

# Yr hyn a glywsom

Fel gyda'n digwyddiad Llais lleol blaenorol yn Nhywyn, clywsom gan bobl a oedd wedi cael profiadau da a drwg o gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n rhaid dweud bod y rhan fwyaf o'r adborth a gawsom yn ymwneud â phrofiadau pobl o ofal iechyd.  Roedd rhai pobl y buom yn siarad â nhw yn fodlon iawn â'u gofal, eraill yn llai.

Mae rhywfaint o'r adborth thematig yn gyfarwydd iawn ac yn anodd iawn i'w ddatrys yn gyflym, ond mae'n achos llawer o rwystredigaeth i gleifion wrth iddynt geisio llywio eu hanghenion gofal iechyd.

### Gofal Sylfaenol

Clywsom fod y "scramble" ffôn 8.00yb i gael apwyntiad meddyg teulu yn parhau i fod yn broblem. Dywedodd llawer o bobl wrthym fod yr holl apwyntiadau ar gyfer y diwrnod hwnnw wedi mynd, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ailadrodd yr un broses y diwrnod wedyn.

Er bod un feddygfa yn dweud bod ganddynt apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw, dywedodd pobl wrthym eu bod wedi rhoi cynnig ar yr opsiwn hwnnw ac wedi cael gwybod bod yr apwyntiadau wedi'u harchebu'n llawn. Roedd consensws cyffredinol pe bai mynediad i'w gael i feddyg teulu yn y diwedd, eu bod yn ddefnyddiol iawn.

Dywedodd pobl wrthym ar rhai achosion, bu'n gorfod teithio pellter mawr ar gyfer profion gwaed, mae hyn yn broblem os ydyn nhw'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus sydd efallai ddim yn cyd-fynd â'r amser apwyntiad. Roedd rhwystredigaeth hefyd bod Canolfan Iechyd a Lles y Fflint, lle'r oedd y mwyafrif o bobl yn y Fflint yn dymuno cael eu prawf gwaed, fel arfer yn llawn hyd at fis ymlaen llaw. Aeth rhai pobl wedyn i'r Wyddgrug neu Dreffynnon, lle'r oedd dau fflebotomist, lle dim ond un oedd yn y Fflint. Roedd teimlad cyffredinol y byddai'r angen lleol yn cael ei wasanaethu'n well trwy gael dau yn y Fflint.

Dywedodd pobl wrthym hefyd nad oeddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG gyda llawer yn teithio i Gaer ar gyfer gofal deintyddol y GIG a phreifat. Roedd y teithio i Gaer yn gostus a oedd yn bryder i rai. Yn un o'r grwpiau cymunedol y mynychon, dywedodd 2 berson wrthym eu bod wedi llwyddo i fynd ar restr ddeintyddol y GIG, ond roedd hyn ar ôl cryn amser.



Roedd yn arbennig o bryderus clywed gan lawer iawn o bobl sut maen nhw'n teimlo eu bod wedi'u heithrio gan fod y system ar gyfer archebu presgripsiynau ailadroddus wedi symud ar-lein. Nid yw llawer yn deall sut i ddefnyddio'r system ar-lein ac i rai gallai hyn olygu oedi wrth dderbyn eu presgripsiwn a'u meddyginiaeth.

*"Mae popeth ar-lein nawr os nad ydych chi ar-lein, mae'n broblem. Mae fy mab yn ceisio edrych i mewn iddo i mi gan nad wyf yn deall sut i archebu fy mhresgripsiwn ailadroddus."*

Yn Saltney clywsom gan bobl am eu hanawsterau wrth gael presgripsiwn wedi'i ddosbarthu pan fydd y presgripsiwn wedi'i godi gan feddyg teulu dros y ffin yn Lloegr.

## Adran Achosion Brys

Roedd aros hir yn AD hefyd yn ymddangos. Roedd un person wedi cael llythyr gan ei feddyg teulu a dweud wrtho am fynd i Glan Clwyd ar unwaith. Pan gyrhaeddon nhw, fe wnaethon nhw roi eu llythyr i'r dderbynfa a dywedwyd wrthynt y byddai aros 36 awr. Dywedodd un arall wrthym eu bod yn mynychu Maelor Wrecsam gyda chlun wedi torri; roedden nhw'n eistedd mewn cadair olwyn am 9 awr yn aros i gael eu gweld.

Dywedodd llawer wrthym am eu profiadau o aros hir am ambiwlansys – yr hiraf oedd 9 awr.

I'r cleifion hynny a gafodd eu gofal ym Maelor Wrecsam ac Iarlles Caer roedd profiadau cyferbyniol. Dywedodd nifer ohonynt wrthym fod amseroedd aros adran achosion brys yn sylweddol is yn Iarlles Caer nag ym Maelor Wrecsam ac os oedd angen iddynt fynychu'r adran achosion brys, am ba bynnag reswm, eu dewis byddai mynd at Iarlles Caer.

*"Mae gen i brofiadau cymysg o Faelor Wrecsam, mae'n well gen i fynd i Iarlles Caer."*



*"Mae'n well gen i fynd i Ysbyty Iarlles Caer yn hytrach na Maelor Wrecsam. Pan fyddwch chi'n cerdded i mewn i Faelor Wrecsam, nid yw'n edrych nac yn arogli'n lân."*

Dywedodd un arall wrthym:

*"Ni fyddaf byth yn camu i mewn i Ysbyty Maelor eto."*

## Parcio ym Maelor Wrecsam

Dywedodd llawer o bobl wrthym am eu rhwystredigaethau o geisio dod o hyd i le parcio wrth fynychu clinigau cleifion allanol fel claf a neu fel gofalwr. Ychwanegodd yr anallu i allu parcio, at y straen o fynychu'r ysbyty; mae hyn yn rhywbeth y mae Llais Gogledd Cymru wedi clywed dro ar ôl tro.

*"Mae parcio ceir ym Maelor Wrecsam yn ofnadwy. Mae'r parcio anabl yn cael ei feddiannu gan bobl heb fathodyn glas yn bennaf ac mae'n anodd iawn dod o hyd i le."*

*"Mae parcio ym Maelor Wrecsam yn hunllef lwyr! Pam nad ydyn nhw'n cynnig trafnidiaeth gymunedol i leihau nifer y ceir, neu gael parcio a theithio i staff?"*

*"Mae angen mynd i'r afael â pharcio ym Maelor Wrecsam ac Ysbyty Glan Clywd. Yn sicr gellir gwneud rhywbeth? Mae chwilio am rywle i barcio eich car yn achosi cymaint o straen cyn i chi hyd yn oed osod troed yn yr ysbyty."*

Dywedodd un person wrthym fod yn rhaid iddyn nhw ollwng eu priod, sydd â dementia, wrth y fynedfa i Faelor Wrecsam, wrth iddyn nhw geisio dod o hyd i le parcio, ac yn gobeithio nad yw eu priod wedi crwydro i ffwrdd yn y cyfamser.

Dywedodd un arall wrthym, eu bod wedi gofyn i yrrwr tacsi symud o le anabl er mwyn gallu parcio eu car, ymosododd y gyrrwr tacsi ar y person hwn. Pan adroddwyd am y digwyddiad i staff y dderbynfa ni chymerwyd unrhyw gamau.

Er nad oedd yn ymwneud â'r gofal a gafwyd, cafodd cyflwr ystâd Maelor Wrecsam, yn enwedig ar benwythnos, ei nodi fel pryder. Nid yw biniau sbwriel yn cael eu gwagio dros y penwythnos gyda'r canlyniad o finiau'n gorlifo a sbwriel yn syrthio ar y palmentydd. Mae hyn yn gwneud i'r ystâd edrych heb ofal ac nid yw'n cyflwyno delwedd dda i'r cyhoedd yn gyffredinol.



## Amseroedd Aros

Dywedodd llawer wrthym am aros hir am lawdriniaethau gyda'r claf yn dioddef poen ac iechyd yn dirywio.  Adroddodd eraill oedi wrth eu hatgyfeirio i'r clinig anadlol gydag oedi dros 2 flynedd yn cael effaith enfawr ar ansawdd eu bywyd bob dydd.

*"Rydw i wedi bod ar y rhestr aros ers 4 blynedd i gael tynnu cyst ofarïaidd ac nid wyf wedi clywed dim."*

## Gofalwyr a Seibiant

Dywedodd rhai gofalwyr wrthym nad oedd llawer o ofal seibiant ar gael iddynt, mewn rhai achosion roedd hyn yn golygu nad oedd y gofalwyr yn gallu mynychu eu hapwyntiadau gofal iechyd eu hunain.

*"Mae bwlch yn Sir y Fflint ar gyfer cymorth dementia i'r unigolyn ond hefyd i'r partner / gofalwr. Oherwydd fy mod i'n heini ac yn iach, nid wyf yn cael unrhyw gefnogaeth i helpu i ofalu am fy ngŵr. Mae'n flinedig, ond rydw i'n cael fy ngadael iddo. Nid oes gennyf seibiant o gwbl; Dod i'r clwb hwn yw fy seibiant. Dwi wir ddim yn gwybod beth fyddai'n digwydd pe bai unrhyw beth yn digwydd i mi – pwy fyddai'n gofalu am fy ngŵr?"*

*"Does gen i ddim cefnogaeth na seibiant; Rwy'n gofalu am fy ngwraig gyda phroblemau iechyd meddwl."*

*"Does neb sy'n dod i weld fy ngwraig mewn person. Byddai'r gweithiwr cymorth blaenorol yn eistedd gyda hi neu'n mynd â hi allan am gwpl o oriau, fel y gallwn gael peth amser i mi fy hun i wneud y siopa er enghraifft. Does neb yn dod ati nawr, a dydw i ddim yn cael unrhyw gefnogaeth i gael unrhyw seibiant."*

*"Does gen i ddim cefnogaeth ar ôl diagnosis dementia fy ngŵr, rwy'n teimlo'n unig iawn."*

## Materion Trawsffiniol

Dywedwyd wrthym fod rhyddhau o ysbyty lleol a thrawsffiniol yn broblem; Weithiau nid yw cleifion yn cael triniaeth ddilynol angenrheidiol.

Dywedodd un mynychwr a oedd wedi cael strôc wrthym, nad oedd y meddyg teulu wedi cael y llythyr rhyddhau tan ddau fis ar ôl rhyddhau gan arwain at fethu â chael ei gyfeirio at therapi Iaith a Lleferydd.

Nid oedd un arall yn cael y gwiriadau gwaed rheolaidd oedd eu hangen arnynt.

Dywedodd rhai wrthym nad oedd systemau gofal iechyd trawsffiniol yn siarad â'i gilydd, sy'n arwain at oedi gyda phrofion gwaed a chanlyniadau eraill.

*"Nid yw systemau'r GIG yn siarad â'i gilydd rhwng Cymru a Lloegr. Os ydw i'n mynd am brawf gwaed i Iarlles Caer, dyw fy meddyg teulu yng Nghymru ddim yn gallu gweld y nodiadau meddygol na'r canlyniadau."*



## Gofal Llygaid

Clywsom nifer sylweddol o sylwadau am oedi i ofal llygaid, gyda'r adeilad yn Abergele yn cael eu beirniadu oherwydd ei hoedran a'i gyflwr. Mae Llais Gogledd Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn Abergele ym mis Mawrth; bydd yn ddiddorol gweld a yw'r adborth a dderbyniwn yn adlewyrchu'r hyn a ddywedodd pobl Sir y Fflint wrthym.

*"Roeddwn ar restr aros ar gyfer 2 llawdriniaeth cataract am 3 blynedd. Es i'r optegwyr am apwyntiad arferol a chael profion amrywiol i weld cefn y llygad. Ni ellid perfformio'r rhain oherwydd maint y cataractau. Fe wnaeth yr optegydd atgyfeirio yn uniongyrchol i Gaer a chefais fy ngweld o fewn wythnos. Gwnaed y llawdriniaeth gyntaf yr wythnos ganlynol. Gwnaed yr ail rai misoedd wedyn. Yr wythnos diwethaf cefais alwad gan Wrecsam yn cynnig apwyntiad, eglurodd eu bod wedi cael eu gwneud drosodd yng Nghaer ac na fyddai angen unrhyw apwyntiad mwyach."*

Mewn un digwyddiad dywedwyd wrthym fod llawer wedi gorfod talu'n breifat i gael eu cataractau wedi'u tynnu. Roedd un person wedi bod yn aros am 2 flynedd eisoes; roedden nhw wedi ystyried talu'n breifat ond roeddent wedi gweld bod y gost yn waharddol.



# Ein hymgymellion i BIPBC

O ganlyniad i'r sylwadau a'r adborth a gawsom yn ystod y Llais Lleol yn Sir y Fflint, rydym eisoes wedi gwneud cynrychioliadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru am rai o'r adborth a gawsom.

Mae'r cynrychioliadau hyn yn ystyried y meysydd pryder canlynol:

- **Apwyntiadau meddygon teulu a'r ciw ffôn 8yb.**
- **Aros hir yn AD**
- **Gofal llygaid ac amseroedd aros hir**
- **Aros hir am lawdriniaethau gyda'r claf yn dioddef poen ac iechyd sy'n dirywio**
- **Aros yn hir am belydr-x yn Ysbyty Treffynnon pan gaiff ei atgyfeirio gan feddyg teulu lleol**
- **Aros hir am ambiwlansys – yr hiraf yw 9 awr.**
- **Gwasanaethau fflebotomi yn y Fflint, Yr Wyddgrug a Treffynnon.**

Rydym yn aros am ymatebion mewn perthynas â'r uchod a byddwn yn rhannu'r ymatebion a'r camau a gymerwyd ar ôl eu derbyn. Mae Cadeirydd BIPBC wedi cydnabod bod y cynrychiolaethau yn ddefnyddiol ac wedi codi rhai o'r themâu yr oeddent yn ymwybodol ohonynt yn ogystal â rhai nad oeddent.

# Diolch

Diolchwn i bawb a gymerodd yr amser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn ddiolchgar i'r gwahanol grwpiau cymunedol am ganiatáu inni fynychu eu digwyddiadau. Hoffem hefyd ddiolch i'n gwirfoddolwyr a'n staff a fynychodd y grwpiau cymunedol ledled Sir y Fflint i gasglu'r profiadau.

Rydym yn gobeithio bod yr adborth y mae pobl wedi cymryd amser i rannu yn dylanwadu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn maen nhw'n ei wneud yn dda – a chymryd camau lle mae angen iddynt wneud cyn gynted ag y gallant, i wneud pethau'n well.

# Adborth

Byddem wrth ein bodd yn clywed beth ydych chi'n ei feddwl am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau am sut y gallem fod wedi ei wella, fel y gallwn ddefnyddio hyn i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

# Manylion Cyswllt

Llais Bangor
Uned 11 Cwrt Castan,
Ffordd y Parc,
Parc Menai,
Bangor,
LL57 4FH.

Ffon: 01248 679284

Llais Wrecsam
Unedau 1B + 1D Parc Busnes,
Wilkinson, Ffordd De Clywedof,
Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam
Wrecsam,
LL13 9AE.

Ffon: 01978 356178

Ebost: ymholiadaugogleddcymru@llaiscymru.org